Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Canllawiau ar gynlluniau gweithredu gwrth-hiliaeth a chyhoeddiad am gyllid ar gyfer colegau

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 07 Hydref 2025 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2025/22 |

| | |
|---|---|
| **At:** | Benaethiaid Colegau Addysg Bellach |
| **Ymateb erbyn:** | 14 Tachwedd 2025 ac 19 Mehefin 2026 |
| **Ymateb i:** | em.cynhwysiant@medr.cymu |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Savanna Jones \| savanna.jones@medr.cymru |
| **Thema:** | Gwrth-hiliaeth |

Mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi'r canllawiau ar gyfer cynlluniau gwrth-hiliaeth a'r cyllid ar gyfer hynny yn 2025/26 (Ebrill 2025 i Orffennaf 2026).

Bydd £21k yn cael ei ddyrannu i golegau ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2025 a Gorffennaf 2026, ynghyd â £4k ychwanegol ar gyfer y cyfnod rhwng Awst 2025 a Gorffennaf 2026.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Canllawiau Cryno: Cynlluniau gweithredu gwrth-hiliaeth

Er cysondeb a pharhad, mae'r Canllawiau ar Gynlluniau Gweithredu Gwrth-hiliaeth Addysg Bellach wedi'u llywio gan ganllawiau cyllid blaenorol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys cyfeiriadau uniongyrchol i ganllawiau gwrth-hiliaeth blaenorol. Fe'u datblygwyd ymhellach gan Medr i roi ystyriaeth i'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (CGCW) a diweddariad 2024 gan Lywodraeth Cymru.

Rydym yn croesawu cyfraniad parhaus colegau at y gwaith hwn drwy eu hymrwymiad i'r camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Yn unol â'n gwerthoedd, rydym am gydweithio â'r sector er mwyn helpu i fodloni gofynion y canllawiau hyn. Gallwch gysylltu â'r tîm yn em.cynhwysiant@medr.cymu.

Er mwyn sicrhau sefydlogrwydd i golegau, ac wrth inni weithio gyda cholegau ar eu cyfraniad ar y cyd at y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: Diweddariad 2024 gan Lywodraeth Cymru, rydym yn dyrannu £21k o gyllid i bob coleg, am gyfnod o un mis ar bymtheg o fis Ebrill 2025 i fis Gorffennaf 2026. O 2026/27 ymlaen, bydd y cyllid yn dychwelyd i gyfnod cyllido blwyddyn academaidd o ddeuddeg mis. Yn 2025/26 rydym hefyd yn dyrannu £4k ychwanegol, ar gyfer y cyfnod rhwng Awst 2025 a Gorffennaf 2026, er mwyn galluogi colegau i fwrw ymlaen â gweithgarwch ychwanegol. Mae'r canllawiau hyn felly'n cadarnhau dyraniad o £25k i bob coleg ar gyfer gwrth-hiliaeth.

Yn ein neges e-bost i'r colegau ym mis Ebrill 2025, anogwyd colegau i ddefnyddio'r cyfnod pedwar mis, o fis Ebrill i fis Gorffennaf 2025, i:

- hunanasesu eu cyflwyniadau inni ar gyfer 2024-25;
- diweddaru eu hasesiadau effaith ar gydraddoldeb;
- ystyried diweddariad y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol; a
- nodi blaenoriaethau sy'n seiliedig ar ddata ar gyfer y coleg.

O fis Gorffennaf 2025 i Gorffennaf 2026, rydym yn disgwyl i golegau:

- barhau i ystyried Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol 2022 i 2026;
- datblygu ac ymestyn eu cynlluniau gweithredu ar gyfer 2022-24, gan ystyried y CGCW a chyngor cyfatebol gan y Black Leadership Group;
- parhau i nodi a gwneud cynnydd gyda blaenoriaethau 2025/26 sy'n seiliedig ar ddata; ac
- ymgysylltu â'r prosiect cwricwlwm gwrth-hiliaeth (Metaverse) (a’r gwerthusiad ohono).

Ar wahân i hynny, mewn ymateb i'r dyraniad untro o £4k ar gyfer 2025/26, rydym yn disgwyl i golegau:

- ddefnyddio matrics aeddfedrwydd hunanasesu Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (a atodir ar ffurf **Atodiad A**); a
- darparu hyfforddiant perthnasol sy'n gysylltiedig â gwrth-hiliaeth, sy'n berthnasol i anghenion y coleg, fel y'u nodwyd drwy asesiad effaith cydraddoldeb a chynlluniau gweithredu.

Dylai cynlluniau gweithredu gwrth-hiliaeth colegau fod yn 'ddogfennau byw' a gaiff eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd fel rhan o brosesau blynyddol y coleg ar gyfer cynllunio strategol, risg a sicrhau ansawdd.

**Nodiadau**

Dylai polisïau, gweithdrefnau a chynlluniau gweithredu gwrth-hiliaeth gwmpasu'r ystod lawn o ddarpariaeth a gynigir gan y Coleg (dysgwyr AB, prentisiaethau, Twf Swyddi Cymru Plws, dysgu oedolion ac ESOL, addysg athrawon ac addysg uwch fel bo'n briodol).

Os yw colegau'n brif bartner mewn darpariaeth gydweithredol, dylent gynnwys partneriaid cyflawni/consortia, staff, myfyrwyr ac arbenigwyr eraill sydd â phrofiad byw yn y canlynol (yn ôl yr angen):

- llunio eu gweledigaeth, eu hegwyddorion a'u gwerthoedd ar gyfer gwrth-hiliaeth a
- datblygu eu cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth ymhellach.

**Cyflwyniad**

1. Mae'r cyllid a'r canllawiau hyn yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed gan golegau yn 2022-2024 i ddatblygu i fod yn wrth-hiliol ac maent wedi'u llywio gan ganllawiau blaenorol gan Lywodraeth Cymru a chefnogaeth y Black Leadership Group. Nod canllawiau 2025/26 yw helpu colegau i ddiweddaru eu cynlluniau gweithredu gwrth-hiliaeth ymhellach i:
    - gyfrannu at nodau a chamau gweithredu'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol i ddod yn Gymru Gwrth-hiliol;
    - gwneud gwahaniaeth cadarnhaol a mesuradwy i ddysgwyr/prentisiaid a staff presennol a rhai'r dyfodol;
    - datblygu camau gweithredu wedi'u llywio gan arbenigwyr ac ymarferwyr, dysgwyr/prentisiaid a staff sydd â phrofiad byw o hiliaeth; a
    - dangos arweinyddiaeth sefydliadol, ymrwymiad ac egni i fynd i'r afael â hiliaeth mewn addysg bellach a sicrhau newid diwylliannol.

2. Rydym yn argymell bod colegau'n darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr, ac yn yr un cyd-destun, â'r canllawiau ar gynlluniau gweithredu gwrth-hiliaeth a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer colegau gan Lywodraeth Cymru.

3. Mae agenda wrth-hiliaeth uchelgeisiol Llywodraeth Cymru wedi'i chyfleu yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Rydym yn disgwyl i gynlluniau gweithredu diwygiedig colegau ystyried fersiwn ddiwygiedig y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

4. Rydym yn croesawu cyfraniad parhaus colegau at y gwaith hwn drwy eu hymrwymiad i'r camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Yn unol â'n gwerthoedd, rydym am gydweithio â'r sector er mwyn helpu i fodloni gofynion y canllawiau hyn. Gallwch gysylltu â'r tîm yn em.cynhwysiant@medr.cymu.

5. Mae Diweddariad y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol gan Lywodraeth Cymru wedi cryfhau ei bwyslais ar arweinyddiaeth a grwpiau â blaenoriaeth. Disgwylir y bydd atebolrwydd am ymrwymiad colegau i wrth-hiliaeth yn cael ei oruchwylio gan aelodau uwch priodol o staff (fel Dirprwy Is-Gangellorion a Phenaethiaid) gyda chefnogaeth cyrff llywodraethu. Disgwylir i golegau hefyd wella'u hymgysylltiad â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a'u cefnogaeth i'r cymunedau hynny.

6. Mae gan Medr ddyletswydd strategol i hyrwyddo cyfle cyfartal mewn addysg drydyddol, gan gynnwys y modd y mae hyn yn berthnasol i grwpiau tangynrychioledig. Mae grwpiau tangynrychioledig yn cynnwys pobl sydd dan anfantais oherwydd rhwystrau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac/eu sefydliadol.

7. Bydd Medr yn ymgynghori ar amodau rheoleiddio newydd ar gyfer cofrestru a chyllido a fydd yn cynnwys ei amodau ar gyfer llesiant a chyfle cyfartal i staff a dysgwyr. Mae'r amod llesiant yn cynnwys gofyniad sy'n ymwneud â diogelwch staff a dysgwyr, sydd yn y cyd-destun hwn yn golygu rhyddid rhag niwed gan gynnwys aflonyddwch, trais, camymddygiad a throseddau casineb. Bydd pwerau rheoleiddio Medr hefyd yn gosod disgwyliad ar ddarparwyr trydyddol i gefnogi cyfle cyfartal i ddysgwyr, fel bo hynny'n berthnasol i gyfranogiad, cadw, a bylchau o ran dyfarnu neu ddilyniant i gyflogaeth neu ddechrau busnes. Er mwyn cefnogi trosglwyddiad

colegau i'r system reoleiddio a chyllido newydd, rydym yn darparu £4k o gyllid ychwanegol yn 2025/26 i'w galluogi i gynnal matrics aeddfedrwydd hunanasesu Llywodraeth Cymru (gweler **Atodiad A**) ac i ddarparu unrhyw hyfforddiant penodol i'r coleg a nodwyd drwy gynlluniau gweithredu a'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.

## Diweddaru'r cynllun gweithredu

8. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Ebrill 2025 a Gorffennaf 2026. O 1 Awst 2026 ymlaen, bydd cyllid a monitro yn dychwelyd i gylch blynyddol, wedi'i alinio â'r flwyddyn academaidd addysg bellach.

9. Rydym yn disgwyl i golegau roi ystyriaeth i'r camau yn fersiwn ddiwygiedig y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: diweddariad 2024 wrth ddiweddaru eu cynlluniau gweithredu.

10. Dylai colegau ddiweddaru (yn ôl yr angen) tair elfen eu cynlluniau gweithredu fel rhan o'u hadroddiad inni ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2025 a Gorffennaf 2026. Bydd y rhain yn cynnwys:

    A. y trosolwg strategol;
    B. hunanasesiad o'r camau gweithredu creiddiol i'r arweinyddiaeth; a'u
    C. cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth.

11. Disgwylir i'r colegau roi sicrwydd eu bod yn gwneud cynnydd yn erbyn eu trosolwg strategol. Lle ceir newid o'r cyflwyniad gwreiddiol, rydym yn disgwyl i golegau roi esboniad cryno.

12. Gall colegau ddewis ymestyn eu cynlluniau gweithredu ar gyfer 2025/26 tan fis Gorffennaf 2027 i gydnabod yr angen am weithgarwch parhaus a/neu hirdymor. Os bydd colegau'n dewis ymestyn eu cynlluniau rydym yn disgwyl iddynt gyflwyno isafswm o flwyddyn o waith cynllunio inni.

13. Rydym yn disgwyl i gynlluniau colegau i fwrw ymlaen â'u strategaeth gael eu harwain a'u cyfarwyddo gan eu Bwrdd a'u huwch arweinwyr. Dylai'r bwrdd ac uwch arweinwyr sicrhau bod digon o adnoddau'n parhau i gael eu neilltuo ar gyfer y gwaith hwn, a'u bod yn parhau i fod yn atebol ac yn gyfrifol am ysgogi newid diwylliannol drwy ymagwedd coleg cyfan.

14. Rydym yn annog colegau i barhau i ystyried y canllawiau gwreiddiol gan y Black Leadership Group, gan gynnwys y Cynllun Deg Pwynt. Rydym yn darparu cyllid ychwanegol i gefnogi hyfforddiant gwrth-hiliaeth, fel blaenoriaeth ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus yn 2025/26, gan gydnabod mai hyfforddiant yw Pwynt Dau yng Nghynllun Deg Pwynt y Black Leadership Group.

## Adolygu a datblygu

15. Rydym yn disgwyl i waith adolygu a datblygu gael ei lywio gan asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, ac yn seiliedig ar ddata a thystiolaeth. Rydym yn cadw'r hawl i alw

am asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb os ydym yn ansicr ynghylch lefel uchelgais ac/neu ffocws y cynlluniau.

16. Rydym yn disgwyl y bydd gwaith adolygu a datblygu cynlluniau gweithredu gwrth-hiliaeth yn cael ei ymgorffori yng nghylch adolygu a datblygu blynyddol y colegau i lywio hunanasesu, ansawdd a datblygiad proffesiynol parhaus, cynllunio strategol (gan gynnwys yr agweddau hynny ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol y coleg sy'n gysylltiedig â hil/ethnigrwydd) a phrosesau penderfynu.

17. Dylid monitro cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth ar lefel y tîm, yr uwch reolwyr a'r Bwrdd, o leiaf deirgwaith y flwyddyn.

18. Yn ogystal â hynny, dylai dysgwyr, prentisiaid, staff, cyfeillion beirniadol a phartneriaid cydweithredol sydd â phrofiad byw gael eu cynnwys mewn diweddariadau, gan gynnwys llywio barn am gynnydd a llunio blaenoriaethau ac anghenion hyfforddi o ganlyniad i hynny.

19. O ran casglu data, byddwn yn adolygu'r broses eleni gyda'r bwriad o ymgynghori â chi ar unrhyw newidiadau, a'u rhoi ar waith y flwyddyn nesaf (2026/27).

**Cyllid**

20. Bydd colegau'n derbyn £21k am y cyfnod o 16 mis o fis Ebrill 2025 i fis Gorffennaf 2026. Yn ogystal â hyn, ceir dyraniad 'untro' o £4k i gwblhau matrics aeddfedrwydd Llywodraeth Cymru a darparu hyfforddiant sy'n benodol i golegau.

21. Mewn ymateb i'r £21k o gyllid rydym yn disgwyl i golegau:
    - roi ystyriaeth i'r fersiwn wedi'i diweddaru o'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol 2024-26;
    - diweddaru eu cynlluniau gweithredu ar gyfer o leiaf 2025/26, gan gydnabod y gallai rhai barhau hyd 2027;
    - diweddaru eu hasesiadau effaith ar gydraddoldeb;
    - nodi blaenoriaethau sy'n seiliedig ar ddata; ac
    - ymgysylltu â'r prosiect cwricwlwm gwrth-hiliaeth (Metaverse) (a'i werthusiad).

| Enw'r darparydd | Cyfanswm y dyraniad |
|---|---:|
| Addysg Oedolion Cymru | £21,000 |
| Coleg Penybont | £21,000 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | £21,000 |
| Coleg Cambria | £21,000 |
| Coleg Gwent | £21,000 |
| Coleg Sir Gâr | £21,000 |
| Coleg y Cymoedd | £21,000 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | £21,000 |
| Grŵp Llandrillo Menai | £21,000 |

| | |
|---|---|
| Grŵp Castell-nedd Port Talbot | £21,000 |
| Coleg Merthyr | £21,000 |
| Coleg Sir Benfro | £21,000 |
| Coleg Dewi Sant | £21,000 |
| **Cyfanswm – Talu fel un llinell** | **£273,000** |

22. Ar wahân, yn 2025/26 bydd taliad untro ychwanegol o £4k yn cael ei ddarparu i golegau er mwyn:
    - cwblhau a rhannu crynodeb o ganlyniadau'r hunanasesiad â ni drwy ddefnyddio matrics aeddfedrwydd Llywodraeth Cymru (**Atodiad A**), a
    - chaffael ac/neu ddarparu hyfforddiant gwrth-hiliaeth penodol i'r coleg.

| Enw'r darparydd | Cyfanswm y dyraniad |
|---|---|
| Addysg Oedolion Cymru | £4,000 |
| Coleg Penybont | £4,000 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | £4,000 |
| Coleg Cambria | £4,000 |
| Coleg Gwent | £4,000 |
| Coleg Sir Gâr | £4,000 |
| Coleg y Cymoedd | £4,000 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | £4,000 |
| Grŵp Llandrillo Menai | £4,000 |
| Grŵp Castell-nedd Port Talbot | £4,000 |
| Coleg Merthyr | £4,000 |
| Coleg Sir Benfro | £4,000 |
| Coleg Dewi Sant | £4,000 |
| **Cyfanswm – Talu fel un llinell** | **£52,000** |

23. Rydym yn disgwyl i golegau roi sicrwydd inni gan Benaethiaid/Prif Weithredwyr i gadarnhau bod yr holl gyllid a ddarparwyd wedi'i ddefnyddio i'r dibenion a nodwyd yn y canllawiau hyn.

24. Bydd y dyraniad llawn o £25k yn cael ei roi i'r colegau ym mis **Tachwedd 2025**, yn amodol ar gyflwyno cynlluniau 2025/26. Rydym yn cadw'r hawl i adhawlio cyllid os yw'r cynlluniau neu'r monitro diwedd blwyddyn yn anfoddhaol.

**Trefniadau adrodd**

25. Dylai colegau anfon copi o'u cynllun gweithredu ar gyfer 2025/26 atom i em.cynhwysiant@medr.cymu erbyn **Dydd Gwener, 14 Tachwedd 2025**. Erbyn y dyddiad hwn, byddwn yn derbyn copïau drafft o gynlluniau nad ydynt wedi'u llofnodi gan y Bwrdd eto, gyda chynlluniau cymeradwy yn cael eu cyflwyno cyn diwedd mis Rhagfyr fan bellaf.

26. Rydym yn disgwyl i golegau gyflwyno:
    i. cynnydd yn erbyn Cynlluniau Gweithredu 2025/26;
    ii. cadarnhad o gwblhau a chrynodeb o ganlyniadau drwy ddefnyddio'r matrics aeddfedrwydd;
    iii. templed monitro a chrynodeb o hyfforddiant a brynwyd ac/neu a ddarparwyd i Medr (em.cynhwysiant@medr.cymu) erbyn **Dydd Gwener, 19 Mehefin 2026**.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau i'w cyflwyno**

27. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Savanna Jones (savanna.jones@medr.cymru)

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**